**PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG**

**ADRODDIAD AR Y CAMAU A GYMERWYD I ROI JIGSAW AR WAITH**

**1. Diben**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r camau mawr a gymerwyd i roi JIGSAW ar waith.

**2. Crynodeb**

Mae'r papur hwn yn egluro'r cefndir o ran sut y cafodd JIGSAW ei sbarduno, ac mae'n rhoi'r diweddaraf ar y datblygiadau.

**3. Amseru**

Mae'r papur hwn yn cael ei gyflwyno ar gais y pwyllgor.

**4. Cefndir**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweinyddu'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin ar gyfer ffermwyr Cymru o'i dair swyddfa ranbarthol yng Nghaernarfon, Caerfyrddin a Llandrindod, a 9 swyddfa ardal sydd wedi eu lleoli ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae'r taliadau PAC i ffermwyr Cymru yn fwy na £200 miliwn y flwyddyn, a gyda dros 150,000 o daliadau unigol yn cael eu rhoi i ryw 20,000 o ffermwyr.

Yn y 1990au fe ddaeth hi'n amlwg nad oedd targedau'r Siarter Ffermwyr yn cael eu taro, ac nad oedd taliadau'n cael eu gwneud yn unol â thaliadau MAFF i ffermwyr yn Lloegr. Hefyd, roedd oedi yn y drefn daliadau a methiannau yn y systemau rheoli yn golygu bod y Comisiwn Ewropeaidd yn gwrthod taliadau. Trysorlys y DU fu'n gorfod ysgwyddo'r gost hon, ond roedd yna bryder mawr y byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn sefyllfa fregus yn y dyfodol.

Fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym 1998, gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru gomisiynu ymgynghorwyr i asesu'r dewisiadau ar gyfer gwella'r modd yr oedd taliadau PAC yn cael eu gweinyddu i ffermwyr yng Nghymru. Gwnaeth ymgynghorwyr HEDRA ddadansoddi'r 3 phrif ddewis ar gyfer gweinyddu PAC yng Nghymru (gan y Swyddfa Gymreig, y Bwrdd Ymyrraeth a MAFF) yn ogystal â dewisiadau o'r Sector Preifat.

Yn dilyn ymgynghori eang ag ASau, cyrff ffermio a staff, ym mis Rhagfyr 1998 gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddewis y Swyddfa Gymreig a chyhoeddi buddsoddiad o £16 miliwn. Ym mis Ionawr

1999 cytunodd y Trysorlys ariannu 75% o gostau'r rhaglen o'u Cyllideb Buddsoddi i Arbed.

Enw'r rhaglen rheoli newid dros y pedair blynedd nesaf yw'r 'Fenter ar y cyd ar gyfer gwasanaethau'r Llywodraeth Ledled Cymru' (JIGSAW), ac mae iddi ddau brif amcan:

*Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith gweinyddu'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (PAC) ar gyfer ffermwyr a chynhyrchwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy wella ansawdd y gwasanaethau i gwsmeriaid a'r modd y maent yn cael eu cyflawni, a hefyd trwy leihau cost gweinyddu PAC i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gweithio mewn partneriaeth â chyrff ffermio a chyrff eraill o'r sector cyhoeddus i gydlynu'n well y gwasanaethau ar gyfer ffermwyr, busnesau ffermio, teuluoedd sy'n ffermio a dinasyddion cefn gwlad eraill sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, a gwella'u cyfleoedd i gael atynt. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy helpu'r tair Swyddfa Ranbarthol a chyrff sector cyhoeddus eraill i ymddwyn fel 'siopau un stop'. Byddant yn galluogi'r cwsmeriaid i gael gwybodaeth ar bob math o wasanaethau yn ogystal â chreu cysylltiadau rhyngddynt â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**5. Materion i'w Hystyried**

Mae JIGSAW yn cyflawni gwelliannau trwy pum ffrwd gwaith: Cwsmer, Proses, Technoleg Gwybodaeth, Pobl a Lleoliad. Mae'r rhaglen bellach yn ei blwyddyn olaf, ond yn 2001 amaharwyd ar JIGSAW oherwydd bod arno angen rhyddhau staff i reoli Clwy'r Traed a'r Genau a rhoi cymorth i ffermwyr adeg yr argyfwng. Gydol y cyfnod hwn, gwnaeth staff ar bob lefel ddangos ymrwymiad sylweddol i'r rhaglen ac mae llawer iawn eisoes wedi ei gyflawni. Mae'r prif lwyddiannau wedi eu nodi isod:

**Gwella Gwasanaethau Uniongyrchol i'r Cyhoedd**

| |
|---|
| Staff gwasanaethau uniongyrchol sydd wedi eu hyfforddi'n benodol i wasanaethu cwsmeriaid |
| Tîm Gwasanaethau Uniongyrchol yn datrys 80% o'r ymholiadau a ddaeth dros y ffôn |
| Gwella oriau agor y Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal i gwrdd â gofynion cwsmeriaid |
| Gweithio gyda phartneriaid i gwrdd â gofynion y cwsmeriaid e.e. Cyswllt Ffermio, Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain a Chyllid y Wlad |
| Mynediad am ddim i'r we o Swyddfeydd Rhanbarthol |

**Cyswllt Cwsmeriaid**

| |
|---|
| Ym mis Mawrth 2000, gwnaethom gynnal arolwg o 2000 o gwsmeriaid ac ers hynny rydym wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith |

| |
|---|
| Sefydlwyd Tîmau Cyswllt i gyfarfod â'r ffermwyr ac i hyrwyddo arfer da |
| Cynnal cyfarfodydd cyson ledled Cymru i roi gwybod i'r ffermwyr am newidiadau i'r cynllun a'r ffurflenni |
| Darparu Llyfrau Cofnodi Defaid a Gwartheg am ddim i'r holl gynhyrchwyr gyda chymorth iddynt fodloni gofynion ac i sicrhau bod eu cofnodion presennol yn ddigonol |
| Pob ffermwr yn derbyn Gwlad, sef cylchgrawn amaethyddol misol |
| Bydd ein staff wrth law i roi gwybodaeth a chyngor mewn 13 o Sioeau Amaethyddol eleni |

**Prosesau Gwell**

| | | |
|---|---|---|
| Tîmau newydd wedi'u sefydlu yn y Swyddfeydd Rhanbarthol i brosesu'r holl geisiadau sy'n ymwneud â ffermwyr unigol, gyda'r nod o wella cysondeb y gwasanaeth a'r modd y mae'n cael ei gyflawni | | |
| Cyflwyno ffurflenni cais newydd dwyieithog â chwestiynau symlach a gwybodaeth a argraffwyd eisoes i leihau gwallau a galluogi'r ffurflenni i gael eu darllen yn electronig. | | |
| Cyflwyno cyfeirnod newydd ar gyfer adnabod ein cwsmeriaid | | |
| Ail asesiad EFQM newydd ei gwblhau ar draws holl feysydd CAPM sydd yn dangos gwelliannau sylweddol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol | | |
| Cyflwyno Mecanwaith Apelau Annibynnol | | |
| Nifer yr Apelau | Sydd wedi eu cyfeirio | Llwyddiannus |
| Cam 1: 252 | 180 | 26 |
| Cam 2: 69 | 32 | 4 (cynigwyd 2 daliad ex gratia) |
| Cam 3: 4<br><br>(1 ysgrifenedig, 3 llafar) | 1 ysgrifenedig | 0 |

**Taliadau**

Amcan cyffredinol JISGAW yw gwella'r gwasanaeth, a thrwy hynny, wella'r system taliadau hefyd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni pan fydd y system TG newydd ar waith. Yn ystod y cyfnod a welodd newidiadau busnes dros y 2 flynedd olaf, roedd yna risg y byddai'r gwasanaeth yn dirywio, ond mae'r ffigurau isod yn dangos bod y taliadau wedi eu cynnal, ac wedi eu gwella mewn mannau.

| |
|---|
| **Perfformiad y Siarter Ffermwyr.** |

| | **1997-98** | **2000-2001** | **2001-2002** |
|---|---|---|---|
| **Cynllun.** | **%** | **%** | **%** |
| **CYNLLUN PREMIWM BLYNYDDOL DEFAID** | | | |
| Bydd y taliad olaf yn cael ei roi ar ddiwedd fis Ebrill yn dilyn blwyddyn y cynllun. | 78% | 98% | 91% |
| **CYNLLUN PREMIWM BUCHOD SUGNO** | | | |
| Rhag-daliadau o fewn 3 mis i'r dyddiad cau. | 78% | 74% | 97% |
| Taliadau olaf erbyn 30 Mehefin | 88% | 98% | 98% |
| **CYNLLUN TALIADAU ANARDDWYS** | | | |
| Taliadau cyn 30 Mehefin. | 92% | 97% | Ddim ar gael eto |
| **TIR MYNYDD** | | | |
| Taliadau cyn diwedd mis Ebrill | | 96.6% | 90% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYNLLUN PREMIWM ARBENNIG EIDION** | | | |
| Dychwelwyd y dogfennau ceisio am bremiwm i'r ymgeiswyr cyn diwedd y cyfnod cadw. | 95% | 98% | 99% |
| Mewn achosion lle mae'r cyfnod cadw yn dod i cyn 1 Tachwedd, bydd rhag-daliadau'n cael eu gwneud erbyn 15 Rhagfyr. (16 Hydref hyd 27 Tachwedd oedd y dyddiadau ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002) | 33% | 98% | 99% |
| Mewn achosion lle mae'r cyfnod cadw yn dod i ben cyn 1 Tachwedd, bydd rhag-daliadau'n cael eu gwneud o fewn 3 mis wedi diwedd y cyfnod cadw. | 98% | 48% | 82% |
| Bydd taliadau olaf ac unrhyw bremiwm anarddwys yn cael eu talu erbyn 30 Mehefin yn y flwyddyn sy'n dilyn. | 94% | 98% | 95% |
| **TALIADAU TIR ÂR** | | | |
| Bydd taliadau grawn, had llin a phrotein yn cael eu gwneud rhwng 16 Hydref a 31 Rhagfyr. | 63% | 97.7% | 99% |

**Technoleg Gwybodaeth**

| |
|---|
| Mapiau Digidol i'w rhoi i 16,000 o ffermwyr Cymru yn dilyn ymgynghoriadau unigol |
| System TG newydd yn cael ei gweithredu a fydd yn symleiddio trefn brosesu'r ceisiadau ac felly'n cyflymu'r taliadau. |
| Uned Sganio newydd wedi'i sefydlu i gasglu data electronig o'r ffurflenni cais a'r ohebiaeth gan ffermwyr er mwyn i'r system TG newydd gael prosesu'r wybodaeth |

**Datblygu Staff**

| |
|---|
| Mae'r holl staff wedi mynychu gweithdai arweinyddiaeth a rheoli newid |

| |
|---|
| Wedi cynnal arolwg o'r sgiliau yn CAPM i ddyrannu adnoddau'r staff a nodi anghenion datblygu staff |
| Datblygu hyfforddiant cynefino ar gyfer staff newydd |
| Mabwysiadu NVQ fel y prif ddull hyfforddi |
| Staff yn cael eu hyfforddi mewn methodoleg rheoli prosiect PRINCE2 |
| Defnyddio cyfarfodydd gosod safon i sicrhau cysondeb wrth ysgrifennu adroddiadau |
| Cyfathrebu'n well â staff trwy'r Briff Tîm bob pythefnos, sesiynau Te a Bisgedi cyson a thaflen newyddion misol |
| Llwyddiant sylweddol mewn byrddau dyrchafiadau yn dangos y gwelliannau a wnaed o fewn CAPM |

**Lleoliad**

| |
|---|
| Lleoliad newydd y Gwasanaethau Uniongyrchol o fewn y Swyddfeydd Rhanbarthol yn haws i'r cwsmeriaid fynd atynt |
| Swyddfeydd agored o fewn y Swyddfeydd Rhanbarthol yn cefnogi ffyrdd newydd o weithio |

**Pethau eraill i'w cyflawni**

Cynlluniwyd bod y camau a ganlyn yn cael eu cymryd cyn i JIGSAW ddod i ben yn gynnar yn 2003

| |
|---|
| Bydd Cynlluniau PAC newydd yn cael eu rhoi ar y system TG newydd gydol 2002. Mae yna berygl y gall hyn amharu ar fusnes cysylltiedig |
| Bydd strwythur trefniadol newydd yn cael ei fabwysiadu i gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio |
| Bydd strategaeth gwasanaethu cwsmeriaid yn cael ei datblygu yn y Swyddfeydd Ardal |
| Datblygu Strategaeth Gyhoeddusrwydd ar y Cyd gyda phartneriaid e.e. Cyllid y Wlad i gwrdd ag anghenion ehangach ein cwsmeriaid |
| Gwella effeithiolrwydd a defnyddioldeb gwefan ARAD. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth electronig |
| Ar hyn o bryd yn ystyried gwneud cais am Wobr Ansawdd Cymru |

**6. Cydymffurfio**

Dim materion

**7. Themâu trawsbynciol**

Dim

**8. Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

Dim

**9. Pwynt Cyswllt**

Yr Is-adran CAPM